Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

# Cyngor Gwynedd

**Blwyddyn archwilio:** 2013-14

**Cyhoeddwyd:** Medi 2014

**Cyfeirnod y ddogfen:** GC2014

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Gwynedd fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'w dwyn i'ch sylw cyn iddynt gael eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Statws yr archwiliad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 4 |
| Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad | 5 |
| Annibyniaeth a gwrthrychedd | 7 |
| Atodiadau | |
| Llythyr Sylwadau Terfynol | 9 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Cyngor Gwynedd | 12 |
| Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw y Cyngor Gwynedd atynt | 14 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1. Mae'r Archwilydd Penodedig yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2014 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.
2. Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.
3. Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Cyngor Gwynedd yw £3.920 miliwn ar gyfer eitemau incwm a gwariant a balansau cyfalaf gweithio, a £3.862 miliwn ar gyfer balansau eraill. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.
4. Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.
5. Mae'r adroddiad hwn yn nodi, er mwyn eu hystyried, y materion hynny sy'n codi o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Gwynedd, ar gyfer 2013-14, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

6. Gwnaethom dderbyn y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ar 30 Mehefin 2014 sef y terfyn amser y cytunwyd arno, ac rydym erbyn hyn wedi cwblhau'r gwaith archwilio fwy neu lai.
7. Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae tîm yr archwiliad eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Dafydd Edwards, y Pennaeth Cyllid.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

8. **Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol** unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.
9. Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

# Materion sylweddol sy’n deillio o’r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

**10.** Nodwn isod y camddatganiad a nodwyd gennym yn y datganiadau ariannol, a drafodwyd gyda’r rheolwyr ond sy’n parhau heb eu cywiro, a gofynnwn iddynt gael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro’r camddatganiad hyn, gofynnwn i chi roi’r rhesymau dros beidio â’u cywiro

### Mae Darpariaeth safle gwastraff y Cyngor wedi tanddatgan o £404,000

**11.** Mae amcangyfrif y Cyngor ô’u goblygiadau tymor hir sy’n dyledus am safleoedd gwastraff yn £8.388 miliwn. Er hynny, y darpariaeth am safleoedd gwastraff yn y cyfrifion yw  £7.884 miliwn a felly wedi tanddatgan o £404,000.

## Camddatganiadau a gywirwyd

**12.** Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i’ch cyfrifoldebau mewn perthynas â’r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Nodir y rhain, ynghyd ag esboniadau, yn Atodiad 3.

# Materion sylweddol eraill sy’n deillio o’r archwiliad

**13.** Fel rhan o’r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy’n berthnasol i’r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy’n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

### Mae gennym rhai bryderon ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a’ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

**14.** Mae gennym y pryderon canlynol ynglŷn a agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu â adrodd ariannol:

### Mae na nifer o faterion ynglŷn a asedau cyfredol heb fod angen sydd angen rhoi sylw at.

**15.** Fel rhan o’n gwaith ar asedau cyfredol heb fod angen, fe nodwyd y materion canlynol.

- O fewn cofrestr asedau y Cyngor mae na asedau sydd â gwerth llyfr net o £dim, ond mae gwerth grôs, dibrisiant cronnus â amhariad yn £25.6 miliwn. Tra nid ydym wedi darganfod ddim pryderon ynglŷn a perchnogaeth yr asedau hyn, mae’n codi’r mater a ydi yr asedau yma dal yn weithredol a felly ydi’r polisi dibrisiant sydd wedi eu cymhwyso (i gydnabod defnydd o’r ased) yn briodol.

- Hefyd, yn hanesyddol nid yw'r Cyngor wedi sicrhau bod eu holl asedau yn cael ei cofnodi  yn y cofrestr asedau yn ddigon manwl ar gyfer cydnabod yr asedau unigol yn hawdd. Mae hyn yn arbenning o wir am isadeiladwaith, cerbydau, offer a chyfarpar. Ceir goblygiadau bosib, o rhan sicrhau cyfrifyr yr asedau yn gywir mewn perthynas a dibrisiant â amhariad, ond hefyd yn caniatáu i'r cyngor cadarnhau yn hawdd bod yr asedau dal mewn bodolaeth a defnydd.
- Yn ogystal â cofrestr asedau y Cyngor, sy'n cael ei defnyddio yn bennaf am ddibenion cyfrifyddu, mae nifer o adrannau yn cynnal rhestr asedau arwahân, ee cofnodion cerbydau ac eiddo. Nid yw'r confnodion hyn yn cael ei cysoni'n rheolaidd gyda'r cofrestr asedau i sicrhau bod y cofrestr yn gyflawn.

**16.** Dylai'r Cyngor cynnal adolygiad o'i gofrestr asedau i gryfhau ansawdd y cofnodion manwl ac i ystyried a yw ei pholisïau dibrisiant a/ neu polisïau dargadwad yn briodol.

Yn gyffredinol, mae ansawdd y cyfrifon yn eithaf da ond mae na rhai materion angen sylw.

**17.** Rydym wedi nodi'r meysydd canlynol lle mae angen gwaith pellach:

- Mae y Cyngor yn mabwysiadu gweithdrefnau fel rhan o'i broses cae lawr, i sicrhau cofnodir trafodion yn y flwyddyn ariannol cywir. Fodd bynnag, rydym wedi adnabod nifer o trafodion wedi eu cofnodi'n anghywir. Syrthiodd y rhain oll mewn sypiau o anfonebau a prosesir yn syth ar ôl y dyddiad benderfynol ar gyfer prosesu anfonebau yn y flwyddyn flaenorol. Tra rydyn yn fodlon bod y cyfrifon ddim wedi camddatganu yn faterol o ganlyniad i hyn, mae angen i'r Cyngor sicrhau yn y dyfodol bod trafodion cael eu cofnodi'n gywir.
- Er mwyn cyfrifo am eu costau pensiwn yn unol â safon Cyfrifo Rhyngwladol (IAS) 19 (Buddion Gweithwyr), Mae y Cyngor yn derbyn gwybodaeth gan actiwari Gronfa Pensiwn Gwynedd (Hymans Robertson LLP). Fel y nodir isod, mae yr actiwari yn seilio ei chyfrifiadau, yn rhannol ar wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth yr awdurdod gweinyddu. Ers paratoi y cyfrifon yn mis Gorffennaf,  yr oedd yn angenrheidiol bod yr actiwari yn ail gyhoeddi adroddiad IAS 19 Gwynedd. Mi oedd yr ailddatgan cyntaf yn dilyn y canfyddiad bod yr actiwari wedi cyfrif ddwywaith y rhwymedigaethau a oedd yn ymwneud â hen Gyngor Sir Gwynedd. Roedd yr ail ailddatgan wedi nodi bod gwybodaeth cyfraniadau Cyngor Gwynedd a ddarparwyd i'r actiwari yn cynnwys cyfraniadau y Cydbwyllgor GwE, sydd yn cynhyrchu adroddiad a cyfrifon ar wahân. Tra mae'r cyngor yn dibynnu ar yr awdurdod gweinyddu â yr actiwari am y datgeliadau hyn, byddem yn disgwyl ir cyngor cynnal adolygiad i bodloni eu hunain y rhesymoldeb o'r ffigyrau.

## Yr ydym wedi nodi un gwendid materol yn eich rheolaethau mewnol

**18.** Mae safon Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 (Buddion Gweithwyr) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff datgelu yn eu cyfrifon yr asedau, rhwymedigaethau a thrafodion, ynghyd â gwybodaeth benodol am tybiaethau sylfaenol, o ran buddiannau ymddeol.

**19.** Mae'r actiwari yn paratoi prisiad tair blynyddol a'r prisiad blynyddol o rwymedigaethau'r gronfa bensiwn, ar sail IAS 19, sy'n darparu datganiadau refeniw a mantolen i'w cynnwys yn y datganiadau ariannol. Mae hyn yn cael ei baratoi gan ddefnyddio ystod o ddata, a ddarperir gan yr awdurdod gweinyddol, a rhagdybiaethau actiwaraidd.

**20.** Fel oedd yr achos yn 2012/13, Nodwyd bod y data a ddarperir i'r actiwari o ran data aelodaeth wedi bod yn destun ailddatgan ac yn dal i fod yn destun adolygiad pellach

**21.** Y prif reswm dros y newidiadau canlyniadau o'r angen i adlewyrchu swyddi lluosog a ddelir gan yr un unigolyn ar wahân yn y system pensiwn. Yn ogystal, mae'n bosib bod achosion lle nad yw'r manylion terfynu wedi eu darparu ac mae aelodau yn cael eu cam ddatgan yn weithredol yn hytrach na gohiriedig.

**22.** Gallai hyn gael effaith sylweddol ar y prisiad tair blynyddol a prisiad blynyddol IAS 19 a ddarperir gan yr actiwari. Fodd bynnag, ar gyfer y cyfrifon 2013-14 rydym yn fodlon nad yw'n cael effaith sylweddol.

**23.** Fel yn nodwyd gennym y llynedd, mae'n hanfodol bod y Cyngor dal yn sicrhau bod ei systemau cyflogres a phensiynau yn cael eu cysoni'n llawn a bod y manylion yn cael eu cadw'n gywir, yn y ddwy system, ar sail barhaus i sicrhau y gall yr actiwari paratoi'r prisiad actiwaraidd yn seiliedig ar ddata aelodaeth cadarn

## Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt

**24.** Nid oes unrhyw faterion eraill i'w hysbysu i chi. Yn arbennig:

- Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.
- Ni thrafodwyd ac ni hysbyswyd y rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.
- Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu chi amdanynt.
- Ni nodwyd gwendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol nad ydym wedi eich hysbysu amdanynt eisoes
- Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.

# Annibyniaeth a gwrthrychedd

**25.** Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

**26.** Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu.  Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Cyngor Gwynedd sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd llythyr y corff a archwilir]

Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

25 Medi 2014

Annwyl Mr Barrett,

**SYLWADAU YN YMWNEUD Â DATGANIADAU ARIANNOL 2013/14**

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a archwilir) Cyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

**SYLWADAU RHEOLWYR**

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; yn benodol, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am gynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a Roddir

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- mynediad llawn i'r canlynol:
  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol, megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;

- gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol i chi, yn eich barn chi, gael tystiolaeth archwilio ganddynt.

- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyngor Gwynedd ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- manylion yr holl bartïon cysylltiedig a holl gydberthnasau a thrafodion y partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## SYLWADAU AR Y DATGANIAD ARIANNOL

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes yn y datganiadau ariannol gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

Mae balans mewn reserf er mwyn cwrdd â'r tanddatganiad o'r ddarpariaeth ar gyfer safleoedd gwastraff (paragraff 11), felly nid yw'r Cyngor yn agored i risg. Gyda synnwyr trannoeth, rydym yn cydnabod dylid addasu'r cyfrifon er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth, ond yn anffodus, ni chafodd y mater ei esgoli yn ddigon cynnar yn ystod y cyfnod archwilio.

Codwyd rhai materion ynglŷn â chofnodion asedau'r Cyngor yn ystod archwiliad 2013/14 (paragraff 15), a bwriedir rhoi sylw i'r rhain yn ystod 2014/15.

Rydym yn ymwybodol o faterion ynglŷn ag agweddau o'n adroddiadau datguddiad pensiwn SCR19 ar gyfer ein datganiadau ariannol (paragraffau 17-23). Rhoddwyd trefniadau mewn lle yn ystod 2014/15 er mwyn osgoi unrhyw ail-ddigwyddiad yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau trefniadau gwell rhwng yr awdurdod gweinyddol ac actiwari'r Gronfa, yn ogystal â dyrannu adnodd ychwanegol er mwyn diweddaru'r data perthnasol.

## SYLWADAU GAN PWYLLGOR ARCHWILIO CYNGOR GWYNEDD

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd ar 25 Medi 2014.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Yn gywir,

**DAFYDD L EDWARDS**
**PENNAETH CYLLID**

Dyddiad …………………………….

**CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS**
**CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Dyddiad ……………………………

# Atodiad 2

## Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyngor Gwynedd

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Cronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon a datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Cynhelir archwiliad er mwyn cael digon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a gronfa bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2014 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14.

### Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

### Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Anthony Barrett**

**Archwilydd Penodedig**

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

**30 Medi 2014**

# Atodiad 3

## Crynodeb o’r cywiriadau a wnaed i’r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Cyngor Gwynedd atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi’r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i’ch cyfrifoldebau mewn perthynas â’r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| Naratif diwygiad i'r Rhagymadrodd Eglurhaol | **Rhagymadrodd Eglurhaol**<br>Ffigurau a naratif wedi diweddaru yn y rhagair i adlewyrchu newidiadau yn y datganiadau ariannol | Er mwyn sicrhau cysondeb |
| £212,000 | **Nodyn 15 – Eiddo, Offer a Chyfarpar**<br>cywiriad i ddosbarthu o amhariad<br>Amhariad gwerthiannau<br>+£212,000<br>Amhariad ailbrisio<br>-£212,000 | Er mwyn cywiro gwall dosbarthu a cydymffurfio â’r Cod Ymarfer |
| £72,000 | **Nodyn 18 and Nodyn 20**<br>Dyledwyr cywiriad i ddosbarthu<br>Dyledwyr Tymor Hir +£72,000<br>Dyledwyr Tymor Byr -£72,000 | Er mwyn cywiro gwall dosbarthu a cydymffurfio â’r Cod Ymarfer |
| £111,000 | **Nodyn 20 – Dyledwyr Tymor Byr**<br>cywiriad i ddosbarthu dyledwyr tymor byr<br>Cyrff Llywodraeth Canalog Eraill +£84,000<br>Awdurdodau Lleol Eraill +£27,000<br>Endidau Eraill<br>-£111,000 | Er mwyn cywiro gwall dosbarthu a cydymffurfio â’r Cod Ymarfer |
| £815,000 | **Nodyn 23 – Credydwyr Tymor Byr**<br>cywiriad i ddosbarthu Credydwyr<br>Llywodraeth Cymru +£815,000<br>Endidau Eraill -£815,000 | Er mwyn cywiro gwall dosbarthu a cydymffurfio â’r Cod Ymarfer |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| Amryw o ddiwygiadau | **Nodyn 36 – Partïon Cysylltiedig**<br>Cyrff elusennol neu wirfoddol:<br>Aelodau - Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor -£2,216,380<br>Aelodau - Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor -£2,418,524<br><br>Swyddogion<br>Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor -£273,795<br>Swyddogion<br>Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor -£89,922 | I gywiro am wallau fformiwla mewn papurau gwaith |
| Amryw o ddiwygiadau | **Nodyn 36 – Partïon Cysylltiedig**<br>cwmnïau neu fusnesau:<br>Aelodau - Symiau sy'n ddyledus gan y Cyngor -£13,797<br>Aelodau - Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor -£12,949<br><br>Cyrff Cyhoeddus Eraill (CBAC) – Taliadau a wnaethpwyd +£194,633<br>Cyrff Cyhoeddus Eraill (CBAC) - Symiau sy'n ddyledus i'r Cyngor -£97,316 | I ddatgelu y symiau yn y cofnodion ariannol sylfaenol yn gywir |
| £501,000 | **Nodyn 38 – Prydlesau**<br>Cywiriad i ffigyrau prydlesi gweithredol yn dilyn trosglwyddo eiddo i CCG<br>Prydlesau Gwithredol<br>O fewn blwyddyn -£69,000<br>Rhwng un a pum mlynedd<br>-£178,000<br>Mwy na pum mylnedd<br>-£254,000 | Er mwyn cywiro gwall yn y swm a nodir |
| Naratif ychwanegol | **Nodyn 38 – Prydlesau**<br>Gwybodaeth ychwanegol a ddarparwyd mewn perthynas â chyllid yr ased GwyriAD | I hysbysu'r darllenwr |

| | | |
|---|---|---|
| £19.317 miliwn | **Note 42 – Pensions Costs**<br>Gostyngiad mewn ymrwymiadau net ar 31/3/14 yn dilyn adroddiad IAS19 diwygiedig gan yr Actiwari<br>Mae hyn yn effeithio ar nifer o geisiadau o fewn y datganiadau ariannol | Er mwyn adlewyrchu costau pensiwn yn y datganiadau ariannol yn gywir. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk